



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Cyfleoedd gyda GwE

Cyfieithydd (Dros Dro) ★NEWYDD★

CYTUNDEB DROS DRO DROS GYFNOD MAMOLAETH

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Cliciwch yma am gopi o'r hysbyseb.

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â **Sion Wyn Evans**, Rheolwr Busnes (Dros Dro) GwE ar **0300 500 8087** neu e-bost sionwynevans@gwegogledd.cymru

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu cysylltwch ar **01286 679076**

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 26 EBRILL 2018

YMGYNGHORWYR CEFNOGI GWELLIANT:

Cwricwlwm i Gymru, Maes Iechyd a Lles a Datblygu Ymchwil Gweithredol ★NEWYDD★

CYTUNDEB DROS DRO AM DDWY FLYNEDD

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Cliciwch yma am gopi o'r hysbyseb.

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Rhys Howard Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar **07557 759762** neu e-bost rhyswardhughes@gwegogledd.cymru

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu cysylltwch ar **01286 679076**

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 19 EBRILL 2018

Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi Cynllunio Cwricwlwm yn y Sector Uwchradd ★NEWYDD★

CYFLE AM SECONDIAD AM 12 MIS

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Cliciwch yma am gopi o'r hysbyseb. Ceir rhagor o fanylion ar ein [gwefan](#).

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Rhys Howard Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar **07557 759762** neu e-bost rhyswardhughes@gwegogledd.cymru

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 19 EBRILL**

2018 at anwengwilym@gwegogledd.cymru

Continwmm y Gymraeg (Uwchradd) ★NEWYDD★

CYFLE AM SECONDIAD AM 12 MIS (1 MEDI 2018 - 31 AWST 2019) NEU GYFLE AM GYTUNDEB DROS DRO AM FLWYDDYN YN Y LLE CYNTAF

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Cliciwch yma am gopi o'r hysbyseb. Ceir rhagor o fanylion ar ein [gwefan](#).

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag **Alwyn Jones**, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar **0300 500 8087** neu e-bost alwynjones@gwegogledd.cymru.

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00 O'R GLOCH, DYDD MAWRTH, 24 EBRILL**

2018 at anwengwilym@gwegogledd.cymru

★★★NODYN AGOFFA★★★

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2018

Nodyn i'ch atgoffa mai **20 Ebrill** yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich amserlen ar gyfer gweinyddu'r Profion Cenedlaethol. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer cyflwyno yw profion@gwegogledd.cymru

Gofynnwn yn garedig i chi beidio ag anfon amserlen i unrhyw gyfeiriad e-bost arall yn GwE. Diolch.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Datblygu Sgiliau Ymresymu Rhifyddol

Disgyblion Meithrin/Derbyn ★NEWYDD★

Gweithdy hanner diwrnod i ymarferwyr Cyfnod Sylfaen er mwyn datblygu eu dulliau o ddarparu gweithgareddau ymresymu rhifyddol.

Am ragor o fanylion, cliciwch ar y ddolen berthnasol isod:

[Hyfforddiant ar gyfer Athrawon](#)

[Hyfforddiant ar gyfer Cymorthyddion Dysgu](#)

Asesu ar gyfer Dysgu: Gweithio'n

ddoethach, nid yn galetach – Gareth

Coombes

Hyfforddiant ar gyfer holl Benaethiaid neu Arweinwyr Dysgu Ysgolion y Rhanbarth

Lle i [un](#) cynrychiolydd o bob ysgol

Arweiniad ar sicrhau defnydd effeithiol a chyson o Asesu ar gyfer Dysgu drwy'r ysgol.

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Defnydd Effeithiol o Asesu ar gyfer Dysgu i

Leihau Baich Gwaith

CYFLWYNIAD I YSGOLION CYNRADD AC ARBENNIG I DDEUNYDDIAU CEFNOGOL SY'N CAEL EU RHANNU'N GENEDLAETHOL

Gwahoddiad i [un](#) cynrychiolydd o bob ysgol – Pennaeth, Arweinydd Canol, Arweinydd Asesu neu Arweinydd Addysgu.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Cymhwysedd Digidol

[Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau sydd ar gael.

Mae'n bosib cofrestru ar gyrsiau sydd yn cael eu cynnal o rŵan hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018.

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

*****DYDDIAD I'CH DYDDIADUR*****

Cynhadledd Uwchradd – Arwain Addysgu a

Dysgu

DYDD MAWRTH, 3 GORFFENNAF 2018 – MANYLION

COFRESTRU I DDILYN

Gweithdy TGCh i Athrawon

DYDD MAWRTH, 17 EBRILL 2018 – GWESTY MAESMAWR HALL, Y DRENEWYDD

Mae Cymwysterau Cymru yn adolygu cymwysterau TGCh a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol mewn TGCh (a phynciau cysylltiedig). Maent yn gwahodd athrawon a thiworiaid y pwnc i gymryd rhan mewn gweithdy a gynhelir yn Y Drenewydd. Mae lleoedd yn rhad ac am ddim, ond yn gyfyngedig. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

Mantell yr Arbenigwr gyda Luke Abbott

DYDD GWENER, 13 EBRILL – GLASDIR, LLANRWST

Pleser yw cyhoeddi ein hyfforddiant nesaf ddydd Gwener 13 Ebrill yn Glasdir, Llanrwst.

Bydd ystod o weithdai a chyfleoedd i glywed gan arbenigwyr yn y maes a chan ysgolion lleol.

I gofrestru, anfonwch e-bost

at cerisiankenrick@gwegogledd.cymru

Diwrnod Rhwydweithio a Hyfforddiant

Plant fel Ymchwilwyr

DYDD MERCHER, 11 MAI 2018 – PRIFYSGOL BANGOR

Mae tîm Lleisiau Bach yn eich gwahodd i'w Diwrnod Rhwydweithio a Hyfforddiant 2018.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Hyfforddiant Safonau Dysgu Newydd i Fentoriaid Ysgol ANG

• [CYFRWNG CYMRAEG](#) - Dydd Mercher, 11 Ebrill 2018 – 9:00yb – 12:30yp – Plas Menai, Caernarfon

• [CYFRWNG SAESNEG](#) – Dydd Gwener, 13 Ebrill 2018 – 9:00yb – 12:30yp – OpTIC, Llanelwy

Ymholiadau: cysylltwch â Marian Williams ar 01286 679976 neu ang@gwegogledd.cymru

Y Rhaglen Athrawon Graddedig

Mae'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) yn llwybr wedi'i seilio ar gyflogaeth i mewn i addysgu yng Nghymru, sy'n cynnig ffordd i gymhwyso fel athro/athrawes tra byddwch yn gweithio.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Cynhadledd Flynyddol Ranbarthol Penaethiaid Cynradd [Llywodraeth Cymru]

DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Dymuna Kirsty Williams AC/AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, eich gwahodd i Venue Cymru, Llandudno ar 7 Mehefin 2018 i fod yn bresennol a chyfrannu yn y Gynhadledd Flynyddol Ranbarthol i Benaethiaid Cynradd.

Anfonwch unrhyw ymholiad i sylw Leanne.Thomas21@llwy.cymru yn uniongyrchol.

Digwyddiadau a gynhelir gan Techniquet ar gyfer Ysgolion Cynradd: ★NEWYDD★

• Asesu Dysgu a Datblygu yn yr Awyr Agored

DYDD GWENER, 27 EBRILL 2018

YMDIRIEDOLAETH PLAS DERW CYF, LLANEURGAIN, CH7 6AA

• Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Gwyddoniaeth

DYDD IAU A DYDD GWENER, 3 A 4 MAI 2018

CANOLFAN FUSNES CONWY, CONWY, LL31 9XX

Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiadau uchod ar ein gwefan drwy [glicio yma](#).

Ysgol Haf Gwyddorau Bwyd ★NEWYDD★

17-19 GORFFENNAF 2018 – PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

Am ragor o fanylion am yr Ysgol Haf, [cliciwch yma](#). (Dolen i dudalen gwe Saesneg yn unig)

Cynhadledd ‘Creu Dyfodol Llwyddiannus drwy Ddysgu yn yr Awyr Agored’

DYDD IAU, 12 EBRILL 2018 – COED LLWYNONN, LLANFAIRPWLL

Mae Egin Conwy, a grwpiau Rhwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru Gwynedd ac Ynys Môn yn estyn gwahoddiad ichi ddod i Gynhadledd ‘Creu Dyfodol Llwyddiannus drwy Ddysgu yn yr Awyr Agored’ a gynhelir y tu allan o dan gysgod coeden yng Nghoed Llwynonn, Llanfairpwll, Ynys Môn ar 12 Ebrill 2018. Ymunwch ag aelodau o rwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru i gael ysbrydoliaeth a syniadau ymarferol ar sut y gellir defnyddio'r awyr agored i gyflawni 6 maes dysgu ac arbenigedd yr Athro Donaldson. I archebu lle neu i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cynhadledd Estyn – Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion Cynradd

GLASDIR, LLANRWST – DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018

Dysgwch sut mae ysgolion cynradd ac ysgolion pob oed wedi bod yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd trwy weithdai ar arfer effeithiol a chipolygon o arolygu.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Cynhadledd Ranbarthol 2018 Sefydliad Arweinyddiaeth Busnes Ysgol

DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018 – THE QUAY HOTEL & SPA, DEGANWY, CONWY

Cynlluniwyd y digwyddiad hwn yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes busnes ysgol a phenaethiaid yng Nghymru.

Bydd hefyd anerchiad gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Defnyddiwch y cod **CM7m6Opn** i archebu eich lle am ddim, a [chliciwch ar y ddolen hon](#) am ragor o fanylion.

Cyflwyno Asesiadau Personol ★NEWYDD★

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol newydd ar-lein o'r flwyddyn academaidd nesaf (2018/19).

Mae rhagor o fanylion i'w cael [yma](#).

Newyddion

★★★NODYN ATGOFFA I GWBLHAU'R HOLIADUR★★★

Y Gymraeg mewn Addysg – Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gweledigaeth a her glir i gynyddu'r nifer o unigolion sy'n gallu siarad Cymraeg. Disgwylir i'r sector addysg chwarae rhan flaenllaw mewn datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwr ym mhob un o'n hysgolion, ac o ganlyniad i hyn, datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad yn annog a chefnogi pob aelod o staff i gwblhau'r awdit.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y llythyr at Benaethiaid gan eich Pennaeth Addysg.



Addysg Cymru – Cenhadaeth Ein Cenedl ★NEWYDD★

Mae'r rhifyn diweddaraf o'r cylchlythyr i randdeiliaid ar gael yma yn awr.

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol – Prosiectau Trawsranbarthol

Mae pedwar consortia addysg Cymru wedi dod at ei gilydd i reoli naw prosiect trwy Gymru i wella deilliannau pob dysgwr. Y naw prosiect yw:

- Gwella Adborth a Lleihau Baich Gwaith
- Datblygu Arweinwyr
- Darganfod Addysgu
- Gwella Safonau
- Cyfathrebu
- Dysgu Ôl-16
- Cwricwlwm i Gymru
- Melin Drafod Cymru Gyfan
- Dysgu Proffesiynol

Ceir rhagor o wybodaeth yma.

Cofiwch ddilyn [@GwEGogleddCymru](https://twitter.com/GwEGogleddCymru) ar Twitter

*Rydych yn derbyn yr e-bost yma gan eich bod wedi tanysgrifio i dderbyn Bwletin wythnosol GwE.
I ddatdanysgrifio, anfonwch e-bost at bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.*



[GwEGogledd.Cymru](https://www.gwegogledd.cymru)

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

